# POLISI PREVENT PRIFYSGOL ABERTAWE

# DATBLYGWYD YN GYNTAF YN 2016

# DIWEDDARWYD YM MIS HYDREF 2022

| Diweddariad | Dyddiad | Gan | Cymeradwyaeth y Tîm Sicrwydd Prevent |
|---|---|---|---|
| Yn adlewyrchu'r arweiniad diweddaraf gan y Swyddfa Gartref (Ebrill 2021) | Hydref 2022 | Peter Mannion (Cyfarwyddwr Interim Gwasanaethau Myfyrwyr ) | Hydref 2022 |
| Aelodaeth newydd i adlewyrchu rolau a theitlau newydd y Brifysgol | Hydref 2022 | Peter Mannion (Cyfarwyddwr Interim Gwasanaethau Myfyrwyr ) | Hydref 2022 |

| Y Broses Ymgynghori | Dyddiadau | Cymeradwyaeth |
|---|---|---|
| Tîm Sicrwydd Prevent | Awst 2015-Chwefror 2016 | Cymeradwywyd |
| Yr Isadran Lywodraethu | Ionawr 2016 | Cymeradwywyd |
| Y Swyddogion Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth | Ionawr 2016 | Cymeradwywyd |
| Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol | Chwefror 2016 | Cymeradwywyd |
| Caplaniaeth | Ionawr 2016 | Cymeradwywyd |
| Pwyllgor Rheoli'r Mosg | Awst 2015 – Chwefror 2016 | Cymeradwywyd |
| UNDEB Y MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE | Hydref 2015- Chwefror 2016 | Cymeradwywyd 26/02/16**26/02/16** |
| Cydlynydd Prevent Cymru Gyfan (BIS) | Chwefror 2016 | Cymeradwywyd |
| Cofrestrydd | Chwefror 2016 | Cymeradwywyd |
| Swyddfa Cydraddoldeb | Chwefror 2016 | Cymeradwywyd |
| Y Coleg (Navitas) | Chwefror 2016 | Cymeradwywyd |
| Undebau | | |
| Yr Uwch-dîm Rheoli | | |
| Bwrdd Rheoli'r Brifysgol | | |
| Y Cyngor | | |

**Tudalen**


**1. Rhagarweiniad** **3**
**2. Datganiad Polisi** **3**
**3. Cwmpas** **3**
**4. Diffiniad o Derfysgaeth** **3**
**3 Egwyddorion** **3**
**4 Dyletswyddau Sefydliadol** **4**
**5 Undeb y Myfyrwyr** **5**
**5.3.1 Mynediad a Rheoli** **5**
**Adolygu'r Polisi** **6**


**Atodiadau**


**1. Prosesau i sicrhau y caiff y polisi ei roi ar waith a'i ddefnyddio, ac i sicrhau cydymffurfiaeth** **7**
**2. Y Gyfraith a Pholisïau perthnasol.** **10**
**3. Proses ar gyfer adrodd am bryderon ynghylch radicaleiddio** **11**
**4. Y ddyletswydd i Gyfeirio at Banel Prevent** **13**
**5. Strwythur Diogelu PREVENT ym Mhrifysgol Abertawe.** **14**
**6. Protocol ar gyfer digwyddiadau a siaradwyr gwadd allanol** **15**
**7. Ffurflen Ymholiad Siaradwr Gwadd** **16**


**PRIFYSGOL ABERTAWE**

**POLISI PREVENT**

## 1. Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymedig i ddiogelu'r rhyddid i lefaru a rhyddid academaidd ac i amddiffyn a diogelu ei myfyrwyr a'i staff rhag y risg o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ymrwymiad Prifysgol Abertawe i atal myfyrwyr rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod y gall terfysgaeth fod yn gysylltiedig ag ystod o ideolegau. Darperir diffiniad o derfysgaeth isod (2).

### 1.1 Datganiad Polisi

Polisi'r Brifysgol yw cydymffurfio â Deddf Gwrthderfysgaeth 2015.

Yn benodol, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ganddi drefniadau priodol ar waith i gyflawni'r ddyletswydd statudol benodol a nodir yn Adran 26 (1) o Ddeddf Gwrthderfysgaeth 2015, sef "To have due regard to the need to prevent people from being drawn into terrorism." Diweddarwyd ymhellach ar 1 Ebrill 2021 i gynnwys y canllawiau statudol ***"Prevent duty guidance:: for higher education institutions in England and Wales "*** Prevent duty guidance: for higher education institutions in England and Wales - GOV.UK (www.gov.uk)

Wrth arfer y ddyletswydd hon bydd y Brifysgol yn rhoi sylw arbennig i ddyletswyddau statudol eraill i (a) sicrhau'r rhyddid i lefaru (Deddf Addysg (Rhif 2) 1986); a (b) rhoi sylw arbennig i bwysigrwydd rhyddid academaidd (Deddf Diwygio Addysg 1988).

Rhaid i'r Brifysgol ddarparu unrhyw wybodaeth i CCAUC (y Corff Monitro a benodwyd) y gall ofyn amdani at ddibenion monitro perfformiad y Brifysgol wrth iddi gyflawni'r ddyletswydd a osodwyd arni dan Adran 31, gan gynnwys gwybodaeth sy'n pennu'r camau y bydd y Brifysgol yn eu cymryd i sicrhau ei bod yn cyflawni'r ddyletswydd a osodwyd arni dan Adran 31.

Bydd y Brifysgol yn cymryd rhan yn y panel monitro lleol priodol ac yn cydweithredu ag ef.

### 1.2 Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob unigolyn sy'n dod i gysylltiad â Phrifysgol Abertawe, gan gynnwys myfyrwyr a staff Prifysgol Abertawe, siaradwyr gwadd, rolau er anrhydedd a chyfarwyddwyr, ond heb ei gyfyngu i'r rhain, yn ogystal â holl glybiau, cymdeithasau, cynrychiolwyr cyrsiau, gwirfoddolwyr, swyddogion sabothol a Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

## 2. Diffiniad o Derfysgaeth

At ddibenion y polisi hwn, diffinnir terfysgaeth fel defnyddio, neu bygwth defnyddio, trais at ddiben hyrwyddo achos gwleidyddol, crefyddol, hiliol neu ideolegol.

## 3. Egwyddorion

3.1 Mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymedig i feithrin amgylchedd cynhwysol lle mae egwyddorion rhyddid academaidd a rhyddid i lefaru yn sail i'n cenhadaeth.

3.2 Mae Prifysgol Abertawe yn ymrwymedig i sicrhau bod unigolion sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

3.3 Bydd Prifysgol Abertawe'n ceisio adnabod, amddiffyn a chefnogi unigolion y mae'n credu y gallen nhw fod yn agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

3.4 Mae Prifysgol Abertawe yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol a'r rhwydwaith o Gydlynwyr Prevent rhanbarthol.

3.5 Bydd Prifysgol Abertawe yn cyfrannu at yr agenda Prevent aml-asiantaeth.

## 4 Dyletswyddau Sefydliadol

4.1 Bydd y brifysgol, ar lefel uwch-reolwyr, yn mynd ati i ymgysylltu â phartneriaid eraill, gan gynnwys yr heddlu a chydlynwyr Prevent yr Adran Addysg a'r sector Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

4.2 Bydd y brifysgol yn defnyddio mecanweithiau mewnol i rannu gwybodaeth am PREVENT ar draws y sefydliad.

4.3 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant priodol, sy'n benodol i'w hanghenion, yn unol â'r gofynion statudol.

4.4 Bydd y Brifysgol yn cynnal asesiad risg sy'n gymesur â maint a chymhlethdod y sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys bodloni ei hun a'r Llywodraeth bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i helpu i nodi a chefnogi unrhyw unigolyn sydd a all fod yn agored i niwed, a darparu goruchwyliaeth glir o risgiau ar lefel reoli.

4.5 Ar sail yr asesiad, risg bydd y Brifysgol yn datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â chamau y mae angen eu cymryd i liniaru risgiau posibl.

4.6 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod staff a myfyrwyr yn ymwybodol o'r broses ar gyfer rhoi gwybod am bryderon ynghylch unigolion (Atodiad 4).

4.7 Bydd y Brifysgol yn rhoi digon o gefnogaeth ysbrydol a cefnogaeth y gaplaniaeth i fyfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaeth caplaniaeth aml-ffydd a man gweddïo/myfyrio. Bydd y Brifysgol hefyd yn cysylltu â grwpiau ffydd lleol i sicrhau bod integreiddio gyda'r gymuned leol yn digwydd.

4.8 Bydd y Brifysgol yn cydweithio'n agos ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe i sicrhau bod y polisïau mae'r Brifysgol yn eu datblygu yn y maes hwn yn cael eu cefnogi, lle bo hynny'n briodol, gan Undeb y Myfyrwyr (Adran 5)

4.9 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ei pholisi ynghylch defnydd derbyniol o dechnoleg ddigidol (Digital-Acceptable-Use-Policy-V1.0- October-2019.pdf (abertawe.ac.uk)) wedi rhoi sylw dyladwy i'r dyletswyddau a bennir yng nghanllawiau statudol y Ddeddf Gwrthderfysgaeth.

4.10 Bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn cynnal Archif Ymchwil "sensitif o ran diogelwch" sy'n cofnodi pob gweithgaredd ymchwil perthnasol a'r staff a'r myfyrwyr hynny sy'n ymwneud ag ymchwil o'r fath.

4.11 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ganddi Gôd Ymarfer ar gyfer Siaradwyr Gwadd, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

4.12 Bydd y Brifysgol yn sicrhau y bydd unrhyw ddigwyddiad sy'n estyn gwahoddiad i siaradwr a allai fod â safbwyntiau eithafol, neu ddigwyddiad o'r fath, lle gellir denu pobl sy'n agored i niwed i derfysgaeth, neu safbwyntiau a rennir gan grwpiau terfysgol, yn cael ei gydbwyso trwy wahodd siaradwyr sydd â safbwyntiau gwrthwynebol i'r un digwyddiad.

5. **Undeb y Myfyrwyr (3**

5.1 Mae Undeb y Myfyrwyr (o dan y Ddeddf Elusennau) a'r Brifysgol ill dau yn gyfrifol am ddiogelu myfyrwyr ar y campws rhag cyrff peryglus neu sy'n radicaleiddio. Er bod dogfen Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a GCR yn ei gwneud hi'n amlwg bod hwn yn gyfrifoldeb a rennir, y Brifysgol yn y pen draw sy'n gyfrifol am reolaeth gyffredinol ar fynediad ac, o dan Ddeddf 2015 a'r canllawiau a ddiweddarwyd ym mis Ebrill 2021, mae Undeb y Myfyrwyr yn benodol yn ddarostyngedig i Bolisi Prevent y Brifysgol.

5.2 Mae'n ofynnol i Undeb y Myfyrwyr roi polisïau penodol ar waith sy'n datgan pa weithgareddau y caniateir i fyfyrwyr fod yn rhan ohonynt a pha rai sy'n cael eu gwahardd, a dylai hyn gynnwys gweithgareddau ar-lein. Mae gan Undeb y Myfyrwyr ddyletswydd i herio cysyniadau eithafol sy'n cyfreithloni terfysgaeth ac mae'n rhaid i'r Undeb gadw cofnodion o weithgarwch neu faterion o'r fath. Rhaid bod gan yr Undeb perthynas weithio uniongyrchol â'r Cydlynydd Prevent a benodwyd gan y Brifysgol. Er mwyn hwyluso'r broses allweddol hon a chydweithio ar draws y Brifysgol, bydd staff Undeb y Myfyrwyr yn derbyn pecynnau hyfforddi 'Prevent priodol a hyfforddiant risg, yn unol â'r hyn a ddarperir i staff y Gwasanaethau Myfyrwyr. Bydd Prif Swyddog Gweithredol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe hefyd yn aelod o Fforwm PREVENT Addysg Uwch De Cymru, gan sicrhau ymwybyddiaeth o risgiau cyfredol a nodiadau gwybodaeth, a chynrychiolaeth myfyrwyr ar y fforwm.

5.3 Er mwyn sicrhau diogelwch myfyrwyr felly mae'r Brifysgol yn mynnu bod Undeb y Myfyrwyr yn cydweithio â'r Brifysgol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canlynol:

5.3.1 **Mynediad a Rheolaeth**

I. Ni chaniateir i fyfyrwyr gynnal digwyddiad crefyddol, ysbrydol neu ideolegol oni bai ei fod yn cael ei gynnal gan un o gymdeithasau cydnabyddedig Undeb y Myfyrwyr.
II. Rhaid i unrhyw gymdeithas sy'n dymuno cynnal digwyddiad o'r fath siarad yn gyntaf â swyddog perthnasol Undeb y Myfyrwyr a fydd wedyn, os ystyrir bod angen gwneud hynny (gweler y Protocol Digwyddiadau yn Atodiad 5), yn rhoi'r wybodaeth am y digwyddiad i'r Cydlynydd Prevent i'w hystyried, gan ddefnyddio'r ffurflen Ymholiad Cychwynnol am Siaradwr o leiaf 14 diwrnod cyn y digwyddiad arfaethedig (Atodiad 6).
III. Bydd y Cydlynydd Prevent yn gwirio pob digwyddiad a phob siaradwr arfaethedig gan ddefnyddio proses 'Hysbysu' y Swyddfa Gartref a 'Phrotocol Cyfeirio Siaradwyr' Coch Oren Gwyrdd/Un Pwynt Mynediad y Gwasanaethau Diogelwch i ddarparu sylwadau diogelwch ac asesiad risg.
IV. Caiff digwyddiadau megis cynadleddau, lletygarwch a siaradwyr academaidd (sydd wedi'u cynnwys yn 4.12 uchod) a drefnir yn allanol eu trin yn yr un modd gan sicrhau bod y Brifysgol yn gwybod ar bob adeg pwy sydd ar y campws a pham, yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelwch statudol (Côd Ymarfer Rhyddid i Lefaru )
V. Ni chaniateir i gymdeithas myfyrwyr gael ei harwain gan rywun allanol.
VI. Rhaid i unrhyw un sy'n annerch myfyrwyr neu staff ynghylch materion crefyddol, ysbrydol neu ideolegol sydd wedi eu fetio a'u cymeradwyo trwy'r broses Coch Oren Gwyrdd/Un Pwynt Mynediad, gydymffurfio â Pholisi 'Rhyddid i Lefaru' Prifysgol Abertawe.

VII. Caiff ystafelloedd gweddïo eu rheoli yn unol â 'Phrotocol Ystafelloedd Gweddïo' sy'n cynnwys mannau eraill a ddefnyddir at ddibenion addoli neu grefyddol.

VIII. Cyfeirir unrhyw faterion dadleuol neu sy'n ymwneud â diogelwch, a allai effeithio ar ddiogelwch staff neu fyfyrwyr neu enw da'r Brifysgol, at y Cofrestrydd a'r Tîm Sicrwydd Prevent.

**Adolygu'r Polisi**

Mae sefyllfa Prevent, o ran rheoleiddio statudol a ffactorau risg newydd, yn newid yn gyflym. Mae'n hanfodol felly bod y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu hadolygu'n gyson. Bydd angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer unrhyw newidiadau sylweddol i'r polisi.

**Atodiad 1**

**Prosesau er mwyn sicrhau y caiff y polisi ei weithredu, ei ddefnyddio a sicrhau cydymffurfiaeth**

**1. Arweinyddiaeth Gweithredu a Sicrwydd Prevent**

Mae gan y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu gyfrifoldeb cyffredinol uniongyrchol fel Arweinydd PREVENT ac mae gan yr unigolyn hwn awdurdod i ddirprwyo rhai neu bob un o swyddogaethau'r ddyletswydd i staff priodol. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr yw'r person unigol a enwir fel 'Cydlynydd Prevent yn unol â gofynion Deddf 2015 a'r canllawiau diweddaraf o Ebrill 2021. Mae'r swyddogion hyn yn ymdrin ag asesiadau risg uniongyrchol, yn seiliedig ar gyngor y gwasanaethau diogelwch a diweddariadau rheolaidd.

**Tîm Sicrwydd Prevent**

Bydd Cydlynydd PREVENT y Brifysgol yn arwain Tîm Sicrwydd PREVENT aml-ddisgyblaethol ar gyfer monitro a chydymffurfiaeth PREVENT integredig ar draws y Brifysgol

**Mae'r aelodaeth yn cynnwys**:

- Y Dirprwy Is-ganghellor Addysg,
- Cyfarwyddwr Ystadau a Gwasanaethau Campws,
- Y Prif Swyddog Gwybodaeth
- Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch,
- Prif Swyddog Gweithredu Undeb y Myfyrwyr,
- Pennaeth Bywyd Campws.
- Cyfarwyddwr Y Coleg Abertawe

**Cylch Gorchwyl**

- Cwrdd yn ôl y gofyn i adolygu Asesiad Risg a Chynllun Gweithredu Prevent, a'u diweddaru.
- Derbyn diweddariadau diogelwch.
- Cyfarwyddo'r gwaith o sicrhau cydymffurfiaeth Prevent ar draws y Brifysgol.

**Grŵp Sicrwydd Prevent**

Arweinir y Grŵp Sicrwydd Prevent gan aelod o'r Tîm Sicrwydd Prevent, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ynghylch y ddyletswydd Prevent yn cael ei rhaeadru ledled y sefydliad.

**Mae'r aelodaeth yn cynnwys**:

- Aelod o Dîm Sicrwydd Prevent fel cadeirydd
- Swyddogion Diogelu y Colegau
- Swyddogion Amser Llawn Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Abertawe
- Arweinwyr Ffydd Prifysgol Abertawe
- Cynrychiolydd o'r Swyddfa Datblygu Rhyngwladol
- Cynrychiolydd o Bartneriaethau Strategol
- Cynrychiolydd o Undebau'r Brifysgol

**Cylch Gorchwyl**

- Cwrdd unwaith y tymor
- Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Asesiadau Risg a Chamau Gweithredu Prevent
- Darparu diweddariadau ar Asesiadau Risg a Chamau Gweithredu sy’n berthnasol i'w meysydd os yw'n briodol.
- Rhaeadru Gwybodaeth i sicrhau cydymffurfiaeth

(Mae Atodiad 5 yn disgrifio Strwythur Sicrwydd a Llywodraethu PREVENT ym Mhrifysgol Abertawe).

**2. Cyfeirio pryderon ynghylch radicaleiddio**

Gall unrhyw aelod o'r Brifysgol (myfyrwyr neu staff) nodi pryderon ynghylch unigolyn a allai gael ei dynnu i mewn i eithafiaeth dreisgar yn seiliedig ar wybodaeth a dderbynnir neu ymddygiad a welir.

Mae'n bwysig bod modd rhannu pryderon o'r fath mewn ffordd ddiogel a chefnogol er mwyn gallu ymchwilio i bryderon a datblygu ymyrraeth briodol os oes angen.

Mae hi yr un mor bwysig nad yw rhagdybiaethau yn cael eu gwneud yn seiliedig ar wybodaeth a dderbynnir a bod materion a adroddir amdanynt yn cael eu hymchwilio'n drylwyr ac yn deg. Bydd y Brifysgol yn ceisio ystyried pryderon o'r fath o safbwynt diogelu'r unigolyn y mynegwyd pryderon amdano.

Dim ond lle mae tystiolaeth rymus o’r angen i wneud hynny y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ag asiantaethau eraill.

3. **Y Broses Adrodd am Bryderon (Atodiad 3 - Siart Llif)**

1 Lle mae gan fyfyriwr neu aelod o staff bryderon bod unigolyn yn mynegi safbwyntiau eithafol neu o bosib yn agored i gael ei radicaleiddio i eithafiaeth dreisgar, dylid trosglwyddo'r pryderon hyn i’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr neu yn ei absenoldeb Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.

2 Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr neu ddirprwy enwebedig yn ymchwilio i'r mater, gan geisio casglu gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol a fydd yn caniatáu ystyriaeth lawn o’r pryderon.

3 Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr neu ddirprwy a enwebwyd yn ystyried y dystiolaeth berthnasol ar y cyd ag aelodau eraill o'r Brifysgol lle bo hynny'n berthnasol trwy gynnal cyfarfod o Banel Cyfeirio **y Ddyletswydd Prevent** (**Atodiad 4)**

4 Bydd penderfyniad yn cael ei wneud o ran difrifoldeb yr achos. Mae tri chanlyniad posib yn debygol ar y cam hwn:

   (i) **Nid oes angen gweithredu pellach.** Yn yr achos hwn bydd cofnod cyfrinachol o'r achos yn cael ei gadw gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr a byddai'r Cofrestrydd yn cael ei hysbysu bod achos wedi'i ymchwilio ond nad oes angen cymryd camau pellach.

   (ii) **Mae sylwedd i'r achos ond ar y cam hwn dim ond gweithredu mewnol sydd ei angen**. Byddai union natur yr ymyrraeth sydd ei hangen yn cael ei phenderfynu drwy drafodaeth rhwng aelodau staff perthnasol. Cytunir ar gamau gweithredu a dyddiad adolygu. Yn yr adolygiad byddai'r achos yn cael ei asesu eto a'r camau priodol yn cael eu cymryd.

Rhagwelir y byddai'r ymyrraeth yn canolbwyntio ar gefnogi a diogelu yn y rhan fwyaf o achosion ac yn dod o dan gylch gwaith Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr neu Adnoddau Dynol i staff. Eto, bydd y Cofrestrydd yn cael ei friffio'n llawn.

**(iii) Mae angen cyfeirio at yr heddlu oherwydd bod problem diogelwch ddifrifol a brys i'r myfyriwr neu eraill, ac / neu mae tystiolaeth i awgrymu y gallai gweithred droseddol gael ei chyflawni neu mae'r weithred wedi ei chyflawni.** Dim ond yn yr amgylchiadau mwyaf difrifol y byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud a dim ond gan y Cofrestrydd neu drwy awdurdod dirprwyedig yn ei absenoldeb.

## 4. Rhannu gwybodaeth

- Wrth ddod i benderfyniad bod angen rhannu gwybodaeth â thrydydd partïon (yn unol â 3.4 uchod) bydd Prifysgol Abertawe'n cadw at ei Pholisi Diogelu Data a'i 8 egwyddor Diogelu Data.
- Wrth ddilyn y broses gyfeirio a amlinellir yn Atodiad A, efallai y bydd enghreifftiau lle mae Prifysgol Abertawe yn poeni cymaint am ymddygiad unigolyn a'r risg sydd ynghlwm, y bydd angen rhannu'r pryderon hyn ag asiantaethau allanol. Gall hyn gynnwys cyfeirio at y Rhaglen Channel, neu mewn amgylchiadau difrifol, yr Heddlu.
- Wrth rannu gwybodaeth o'r fath â phartïon allanol, bydd Prifysgol Abertawe dim ond yn rhannu gwybodaeth ddigonol a berthnasol er mwyn hwyluso ymchwiliad llawn i'r pryderon .
- Bydd Prifysgol Abertawe yn cadw cofnodion cyfrinachol o'r wybodaeth a rennir. Bydd y rhain yn cael eu cadw yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (1998).

**Atodiad 2**

**1. Y Gyfraith sy'n berthnasol i sefydliadau addysg uwch mewn perthynas â radicaleiddio.**

- Deddf Hawliau Dynol y DU 1998
- Y Ddeddf Diogelu Data1988
- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiedig) 2000
- Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006
- Deddf Atal Terfysgaeth 2005 Act 2005
- Deddf Terfysgaeth 2000 / 2008
- Deddf Cydraddoldeb 2010 2010 (cyfeiriadau at Gymru 2011)
- Y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch (2015)
- Prevent duty guidance: For higher education institutions in England and Wales Ebrill 2021 Prevent duty guidance: for higher education institutions in England and Wales - GOV.UK (www.gov.uk)

2. **Polisïau sy'n effeithio ar sefydliadau addysg uwch mewn perthynas â radicaleiddio**

Ceir amrywiaeth o ddogfennau polisi ar gyfer yr agenda Prevent a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, neu mewn perthynas â hi, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phrifysgolion gan gynnwys:


(i) Promoting Good Relations on Campus (Universities UK/Uned Herio Cydraddoldeb/SCOP) 2005 and Institutional Imperative Update 2007.
(ii) Religious Observance in Higher Education. Uned Herio Cydraddoldeb(2009.
(iii) Umar Farouk Abdulmutallab: Report to UCL Council of Independent Inquiry Panel 2010.
(iv) HM Prevent Strategy 2011.
(v) Prevent, yr Heddlu a Phrifysgolion: Canllawiau i staff yr heddlu i helpu sefydliadau addysg uwch gyfrannu at atal terfysgaeth. ACPO 2012.
(vi) Developments in Counter-Terrorist Measures and Uses of Technology. Yr Athro Helen Fenwick 2012.
(vii) Oversight of Security-Sensitive Research Material in UK Universities. Universities UK 2012.


I gefnogi ein hymagwedd at 'Prevent ar y campws, mae Prifysgol Abertawe hefyd wedi ymgorffori'r ddyletswydd yn y canlynol ac wrth eu datblygu:

(i) Côd Ymarfer ar Ryddid i Lefaru 2012 (Diwygiwyd yn 2014)

(ii) Polisi Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed

**Atodiad 3: Y Broses ar gyfer Rhoi Gwybod am Bryderon ynghylch Radicaleiddio**




Referral Process (Advisory Period)
University referral Panel Convened
Yes
Further Intervention Required?
No
Closed
Return to Internal Process
Yes
If Required Advice Sought from Trusted External Partners
University referral Panel decision: Official referral Required?
No
Referral Process (External Referral)
Yes
External Panel
Outcome

**Atodiad 4**

**Panel Cyfeirio dan Ddyletswydd Prevent**

**Panel Cyfeirio dan Ddyletswydd Prevent Prifysgol Abertawe**

**Aelodau**

- Y Cofrestrydd / Prif Swyddog Gweithredu/ Arweinydd Prevent (Cadeirydd) *****
- Y Dirprwy Is-ganghellor Addysg (Aelod o'r Tîm Sicrwydd Prevent) *****
- Y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (ar gyfer atgyfeiriadau staff) *****
- Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr /Cydlynydd Prevent y Brifysgol (Aelod o'r Tîm Sicrwydd Prevent) *****
- Pennaeth Bywyd Campws (ar gyfer atgyfeiriadau myfyrwyr) (Aelod o'r Tîm SicrwyddPrevent) *****
- Prif Swyddog Gweithredu Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe (ar gyfer atgyfeiriadau myfyrwyr) (Aelod o'r Tîm Sicrwydd Prevent) *****
- Llywydd, Undeb y Myfyrwyr (ar gyfer atgyfeiriadau myfyrwyr) *****
- Cyfarwyddwr Coleg Abertawe
- Cymorth gweinyddol – Cadw Cofnodion

**Cylch Gorchwyl**

1. Bydd y Panel Cyfeirio dan Ddyletswydd Prevent ("y Panel") yn cael ei gynnull gan Gydlynydd Prevent y Brifysgol mewn ymateb i bryder a fynegir mewn perthynas ag unigolyn a allai fod yn agored i gael ei dynnu i mewn i eithafiaeth dreisgar.

2. Bydd y Panel yn cynnwys yr unigolion perthnasol (neu ddirprwyon awdurdodedig) a restrir uchod. Gall y Cadeirydd ofyn i aelodau eraill perthnasol o staff fod yn bresennol yn y cyfarfod, fel y bo'n briodol, i gynnig rhagor o wybodaeth a / neu gyngor.

3. Caiff y Panel ei gynnull fesul achos a bydd yn penderfynu a ddylid cyfeirio achos unigol at asiantaeth allanol am gymorth pellach, at broses y Panel Channel, neu ei gyfeirio yn ôl at ddarpariaethau lles a diogelu presennol y Brifysgol.


4. Bydd adroddiadau dienw o gyfarfodydd y Panel yn cael eu darparu i'r Tîm Sicrwydd Prevent a'r Grŵp SicrwyddPreventat ddibenion monitro, mewn cyfarfodydd dilynol.

**Noder * Eilydd Dynodedig**

**Atodiad 5**


**Strwythur Diogelu PREVENT ym Mhrifysgol Abertawe.**

PREVENT Duty on Safeguarding Vulnerable Individuals: Structure and Governance.



## Atodiad 6

**Speaker and Event Booking Protocol**



**Atodiad 7**

# Prifysgol Abertawe

# Ffurflen Ymholiad Cychwynnol am Siaradwr Gwadd

| | |
|---|---|
| Enw:<br>(Rhowch yr enw llawn neu enwau eraill a ddefnyddir) | |
| Dyddiad geni: | |
| Cyfeiriad:<br>(Presennol neu'r cyfeiriad diwethaf sydd ar gael) | |
| Dyddiad y Digwyddiad: | |
| Lleoliad y Digwyddiad: | |
| Testun y Drafodaeth: | |
| Rheswm dros gyfeirio: | |